CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Trysorydd - swydd ddisgrifiad

Mae'r Trysorydd yn un o'r pum Swyddog Anrhydeddus allweddol yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth lywio ein strategaeth, cynllunio gweithgareddau a sicrhau llwyddiant hirdymor yr elusen. Mae'r Trysorydd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion eraill (y Llywydd, Is-lywydd y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Is-lywydd y Gwyddorau, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth a'r Ysgrifennydd Cyffredinol). Ar lefel staff, mae'n derbyn cefnogaeth y Prif Weithredwr, y Clerc, y Swyddog Cyllid a'r Swyddog Llywodraethu. Bydd y Trysorydd yn aelod o Gyngor (bwrdd ymddiriedolwyr) y Gymdeithas a phwyllgorau allweddol eraill.

Cyfnod y swydd:
Bydd y Trysorydd yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd y gymdeithas, gan gychwyn ar ddiwedd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 19 Mai 2027. Mae modd i'r Trysorydd gael ei ail-ethol am ail dymor o dair blynedd, ond ar ôl hynny ni fydd yn gymwys i gael ei ail-ethol.

Prif gyfrifoldebau:

- Cyflwyno cyllideb arfaethedig i'r Cyngor, fel arfer ym mis Mehefin, ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hon yn dangos ffynonellau incwm disgwyliedig y Gymdeithas a meysydd gwariant.
- Yn yr hydref, cyflwyno cyfrifon y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Cyngor. Caiff y rhain eu harchwilio'n annibynnol gan gyfrifydd allanol, sy'n cael ei benodi'n flynyddol gan y Cyngor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Cadeirio'r Pwyllgor Cyllid (Tri chyfarfod 1.5-awr bob blwyddyn), sy'n datblygu cyllidebau, yn goruchwylio arian, a monitro incwm a gwariant.
- Mynychu, yn ôl yr angen, Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, Cyfarfodydd Cyffredinol eraill y gellid eu galw, a hefyd, fel sy'n briodol, gyfarfodydd uwch bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, sy'n cynnwys cyfarfodydd Cyngor (Pedwar cyfarfod 2-awr bob blwyddyn), Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu (Dau gyfarfod 1.5 awr bob blwyddyn) a'r Pwyllgor Gwaith (Deg cyfarfod 1-1.5-awr bob blwyddyn).
- Cyfrannau at osod cyfeiriad strategol y Gymdeithas gan sicrhau ei bod yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol yn y byd dysgu a chynnig sylwadau a chyngor awdurdodol, ysgolheigaidd a beirniadol ar y lefel uchaf am faterion polisi sy'n effeithio ar Gymru.

- Cymryd rhan yn rhaglen ddigwyddiadau'r Gymdeithas, gan gynnwys mynychu darlithoedd, seminarau a chyfarfodydd eraill ar sail sy'n ddewisol o reidrwydd, ond yn briodol.
- Cynorthwyo a chefnogi staff y Gymdeithas yn ôl yr angen, e.e. asesu ceisiadau grant, cadeirio gweithdai, ayyb.
- Ymddwyn â'r uniondeb angenrheidiol i gynnal hyder y cyhoedd yn y swydd, y Gymdeithas a bywyd academaidd a deallusol yng Nghymru bob amser.

Aelodaeth Ex-officio:

- Cyngor (Bwrdd Ymddiriedolwyr)
- Y Pwyllgor Gwaith
- Pwyllgor Cyllid (Cadeirio)
- Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu

Gweler yma am ddisgrifiad o'r pwyllgorau hyn.